Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

---

Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau am eu hadroddiad ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1:

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn proses ddiwygio drylwyr o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol trwy fabwysiadu'r pecyn o gamau gweithredu a nodir isod, ac ailystyried eu hadnoddau pan fo'n ofynnol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys ail-frandio'r partneriaethau fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol i wneud eu swyddogaeth yn y system sgiliau ehangach yn eglur, a phwyslais newydd ar ymyriadau ar ochr y galw. Mae'r pecyn hefyd yn sefydlu rhagolwg a chylch gwaith strategol eglur ar gyfer y Byrddau, gan wella ymgysylltiad cyflogwyr a gwaith casglu a dadansoddi data.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen diwygio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a chreu chyfeiriad a chylch gwaith strategol newydd ar gyfer y Partneriaethau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r lefelau cyllid.

Rydym yn disgwyl i lefel y cyllid ar gyfer y Partneriaethau barhau yr un fath ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r angen i adolygu lefel y cyllid ar eu cyfer, a gwneir hyn yn ystod 2020 yn amodol ar ganlyniad trafodaethau cyllidebol ehangach. Caiff unrhyw gynnig i gynyddu'r gyllideb yn ystod y blynyddoedd nesaf ei ystyried ynghyd ag unrhyw gynnydd yng nghwmpas eu gwaith cyffredinol.

Cytunwyd y dylid darparu rhagolwg a chylch gwaith strategol eglur i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gweithredu nifer o newidiadau a fydd yn mynd i'r afael â hyn, gan gynnwys y cam o ofyn am Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol strategol tair blynedd. Roedd hyn yn disodli'r gofyniad am gynlluniau blynyddol ac yn ymateb uniongyrchol i argymhellion adroddiad Dr John Graystone ar yr adolygiad annibynnol o lywodraethiant Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (Mawrth 2018) ac adroddiad SQW ar yr adolygiad annibynnol o waith cynllunio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar sail tystiolaeth (2019).

Cytunwyd hefyd y gellid cryfhau ymhellach swyddogaethau ymgysylltu â chyflogwyr a dadansoddi data. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y materion hyn gyda'r

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn cytuno ar ffordd o gydweithio dros y deuddeg mis nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod yr argymhelliad i ail-frandio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol. Mae'r term "Bwrdd" yn awgrymu pwerau i wneud penderfyniadau. Dylai'r Partneriaethau barhau i ddarparu argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch lle mae yna fylchau o ran sgiliau rhanbarthol, prinder darpariaeth neu ormodedd.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni. Fodd bynnag, byddwn yn ymrwymo i adolygu'r adnoddau ariannol a ddarperir i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dyfodol, a hynny yn ystod 2020.

Cam Gweithredu 1:

Ail-frandio Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol i wneud eu swyddogaeth a'u cylch gwaith yn eglur i randdeiliaid. Yn dilyn ymlaen o hyn, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth eglur o gynghori Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar o leiaf: (a) y galw a'r prinder/camgymhariadau sgiliau rhanbarthol yn y presennol a'r dyfodol; (b) sut i fynd i'r afael â phrinder/camgymhariadau sgiliau, (c) gwerthuso eu cyngor a'u cynlluniau eu hunain ac (ch) ar unrhyw ymateb i ergydion i'r system economi a sgiliau ranbarthol fel cyflogwr mawr yn diswyddo nifer sylweddol o staff.

Ymateb: Gwrthod

Er bod gallu adnabod y galw am sgiliau a phrinder sgiliau yn rhan o gylch gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, mater i Weinidogion Cymru yw gweddill y cam gweithredu hwn, neu bydd yn rhan o'r broses werthuso arfer da. Ymdrinnir â'r mater hwn hefyd weithiau yn y ffordd a ddisgrifir yn yr ymateb i bwynt ch, lle mae gan Lywodraeth Cymru fecanweithiau ar waith, ee Rhaglen React a grwpiau ymateb i broblemau cyflogaeth rhanbarthol.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 2:

Yn ychwanegol at yr uchod, dylai fod gan y Byrddau Cynghori y swyddogaeth o nodi, deall a chyflwyno'n eglur i randdeiliaid y sectorau, y rhanbarthau a'r lleoedd sy'n dioddef trapiau sgiliau isel. Dylent gynghori ar fynd i'r afael â'r trapiau, gan gynnwys ysgogi galw gan gyflogwyr yn y dyfodol am sgiliau lefel uwch.

Ymateb: Derbyn

Cytunwyd bod gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol swyddogaeth allweddol wrth nodi, deall a chyflwyno'n eglur i randdeiliaid ranbarthau a lleoedd sy'n dioddef trapiau sgiliau isel.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod y pwynt y dylent gynghori ar fynd i'r afael â'r trapiau, ac ni ddylai ysgogi galw ymhlith cyflogwyr yn y dyfodol am sgiliau lefel uwch fod yn rhan o'u rôl.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 3:

Dylai Llywodraeth Cymru gytuno a chyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Graystone yn llawn er mwyn sicrhau bod llywodraethiant y Byrddau Cynghori yn cael ei gryfhau, yn enwedig yr argymhelliad ar gyfer Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fynd ymhellach a gweithio gyda'r Byrddau Cynghori i sicrhau mwy o amrywiaeth ar eu Byrddau a chydbwysedd rhwng y rhywiau, gan wneud hynny drwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu argymhellion Adroddiad Graystone, yn benodol llywodraethiant Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dyfodol a'u statws cyfreithiol. Mae llawer o'r argymhellion eisoes wedi cael eu gweithredu, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan y Partneriaethau eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod y pwynt ynghylch sefydlu Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol gan mai rôl gynghori sydd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn hytrach na rôl o wneud penderfyniadau.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 4:

Yn unol ag argymhellion adolygiad Graystone a SQW, dylai'r Byrddau Cynghori fabwysiadu pwyslais mwy strategol, gan gyhoeddi gwell adroddiadau sgiliau a chyflogaeth 3 blynedd rhanbarthol.Dylai'r adroddiadau hyn gyflwyno gwybodaeth a dadansoddiad manwl ar lefel wirioneddol strategol sy'n ystyried ffynhonnau sgiliau diwydiant, rhwystrau ac ati i lywio a chynorthwyo'r ystod gyfan o ddarparwyr addysg a rhanddeiliaid eraill, a all gyflwyno eu cynigion ar gyfer ymateb wedyn. Dylai'r cynlluniau gynnwys y materion yng Nghamau Gweithredu 1 a 2 uchod.

Ymateb: Derbyn

Cydnabu Llywodraeth Cymru fod adroddiad SQW yn awgrymu symudiad i rôl fwy strategol ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mewn ymateb, rydym eisoes

wedi gweithredu newid i drefniadau comisiynu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol tair blynedd i osgoi blaenoriaethu adnoddau er mwyn llunio cynlluniau blynyddol. Cyflwynodd pob Partneriaeth gynllun tair blynedd i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2019 sy'n cwmpasu'r cyfnod 2019-22. Mae'r newid hwn wedi'i groesawu gan y Partneriaethau ynghyd â'u partneriaid rhanbarthol yn eu tro.

Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ofynnol i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lunio Cynlluniau Amlinellol Rhanbarthol sy'n darparu'r mecanwaith ar gyfer argymhellion cyflogwyr ar gyfer newid ar draws meysydd prentisiaethau ac addysg bellach.

Yn fwy cyffredinol, mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl strategol glir sydd eisoes wedi'i hamlinellu yn nogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru, ee y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, y Cynllun Polisi Prentisiaethau a'r Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 5:

Trwy'r Fframweithiau Sicrwydd Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Cynghori i nodi mesurau meintiol ac ansoddol y gellir eu defnyddio i fesur a chyfleu effaith y Byrddau i randdeiliaid. Os yw'r Byrddau Cynghori'n mynd i fwynhau hyder diwydiant, mae'n rhaid iddynt allu cynnig prawf diamwys bod amser ac ymdrech cyflogwyr i ymgysylltu â nhw wedi bod yn werth chweil ac yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod nodi mesurau meintiol ac ansoddol y gellir eu defnyddio i fesur effaith y Partneriaethau yn allweddol er mwyn cynnal y gwaith ymgysylltu â chyflogwyr. Mae'n bwysig sefydlu'r gweithdrefnau mesur iawn er mwyn gallu adolygu ac asesu perfformiad Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd y tu allan i Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol. Dim ond os oedd gan y Partneriaethau bwerau i wneud penderfyniadau y byddai creu Fframwaith Sicrwydd Cenedlaethol yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru am weld y Partneriaethau yn parhau i fod yn gyrff cynghori annibynnol.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 6:

Dylid dynodi un Bwrdd Cynghori i gynrychioli a gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer cyrff cenedlaethol mawr ag anghenion sgiliau cenedlaethol fel y diwydiant adeiladu a Trafnidiaeth Cymru.Dylai'r Bwrdd Cynghori hwn gael adnoddau priodol a dylai eu hadroddiadau sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol roi sylw penodol i anghenion sgiliau cenedlaethol cyfanredol cyrff o'r fath.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cadw llygad ar faterion yn ymwneud â sgiliau ar lefel genedlaethol, ond mater i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw cytuno ar y dull gorau o gydlynu gwybodaeth am y farchnad lafur a rhannu arferion gorau. Nid ydym yn derbyn y dylai un Bartneriaeth weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cyrff cenedlaethol mawr. Dylai pob un o'r tair Partneriaeth fod yn ymgysylltu â chyrff cenedlaethol mwy fel rhan o'u strategaethau i ymgysylltu â chyflogwyr. Mae Argymhelliad 1 yn delio â chwestiwn adnoddau'r Partneriaethau yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 7:

Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid cryfhau'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ym mhob Bwrdd Cynghori. Er mwyn cyflawni cymaint o werth am arian â phosibl, ac yn unol â phwyslais Llywodraeth Cymru ar eu cenhadaeth ddinesig, dylid gwneud hyn drwy ddefnyddio'r arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf yn y byd a ariennir yn gyhoeddus ym mhrifysgolion Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru felly weithio gyda CCAUC a phrifysgolion Cymru i sefydlu partneriaethau ffurfiol rhwng prifysgolion a phob Bwrdd Cynghori i gynnal ymchwil a dadansoddi data ar eu rhan a chynnig gwasanaeth ymgynghori ar fethodoleg ymchwil.

Ymateb: Gwrthod

Er ein bod yn cytuno y dylid cryfhau capasiti a gallu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i wneud gwaith ymchwil, nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid ffurfio partneriaethau ffurfiol â CCAUC neu â phrifysgolion Cymru. Mae cyfarfodydd bwrdd y Partneriaethau yn cynrychioli'r sector addysg uwch yn llawn. Dylid ystyried creu capasiti ymchwil canolog y gellid ei rannu â phob un o'r tair Partneriaeth. Mae angen trafod hyn ymhellach gyda'r Partneriaethau dros y misoedd nesaf fel rhan o'r gwaith diwygio ehangach ar eu cylch gwaith.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 8:

Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid gwella'n sylweddol y gallu i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg ym mhob Bwrdd Cynghori.Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hwyluso model sy'n caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg ddefnyddio eu harbenigedd a'u hymchwil presennol i helpu ystyriaethau Cymraeg prif ffrwd y bartneriaeth a hysbysu eu hadroddiadau 3 blynedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cytuno bod yn rhaid gwella'n sylweddol allu pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gasglu a dadansoddi data ar y Gymraeg. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw cefnogi a datblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ym mhrifysgolion Cymru ac yn y sectorau addysg bellach/prentisiaethau, a chefnogi gwaith ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad strategol ar gyfer archwilio a datblygu modelau newydd a fydd yn sicrhau bod data ar y Gymraeg yn rhan annatod o ymchwil a dadansoddiadau yn y dyfodol. Wrth wneud hyn bydd yn defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael mewn prifysgolion a chyrff perthnasol eraill – a allai gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg – i alluogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas ag anghenion sgiliau Cymraeg. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y capasiti ymchwil canolog a nodir o dan Gam Gweithredu 7 uchod yn cynnwys data ar y Gymraeg a dadansoddiadau ohoni fel rhan annatod o'i gylch gwaith.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 9:

Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid neilltuo mwy o adnoddau i ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig â busnesau bach a chanolig, a gwella hynny'n sylweddol. Unwaith eto, trwy wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i ddefnyddio ased gwerthfawr sy'n bodoli eisoes ar ffurf ein rhwydwaith helaeth o ddarparwyr prentisiaethau ac isgontractwyr a ariennir yn gyhoeddus. Mae gan y darparwyr hyn, yn ddiofyn, gysylltiadau llawer agosach â busnesau bach a chanolig nag y gall y Byrddau Cynghori obeithio eu cael – mae cysylltiadau o'r fath yn ased gwerthfawr. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddefnyddio ei chytundebau ariannu i gyflwyno telerau rhesymol ar y darparwyr preifat (a'u 90+ o isgontractwyr) i ymgysylltu â'u rhwydweithiau cyflogwyr a'r Byrddau Cynghori i harneisio eu gwybodaeth sylweddol am y galw yn y farchnad.

Ymateb: Derbyn

Derbynnir bod y rhwydwaith darparwyr hyfforddiant yn ymwneud ag ystod eang o fusnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig yn rhan o'r broses o hyfforddiant sgiliau Llywodraeth Cymru ac o gynnig prentisiaethau. Mae angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sicrhau, felly, bod llais y busnesau bach a chanolig nad ydynt yn rhan o'r broses ar hyn o bryd yn cael ei gynrychioli.

Er mwyn cael gafael ar wybodaeth gan y cyflogwyr sydd eisoes yn rhan o'r broses, dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol nodi'n glir i ddarparwyr yr wybodaeth a fyddai o ddefnydd; rydym ar ddeall y byddai'r darparwyr yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r Partneriaethau. Mae'n annhebygol, felly, bod angen gosod gofyniad

cytundebol ar ddarparwyr, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cam hwn os oes angen. Dylai'r Partneriaethau nodi, wrth werthuso'r wybodaeth a gaiff gan ddarparwyr, mai safbwynt cyfyngedig ydyw o ofynion busnesau bach a chanolig.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Cam Gweithredu 10:

Yn unol â rhagolwg mwy strategol, ni ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fyrddau Cynghori wneud argymhellion gweithredol ar niferoedd dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach mwyach, hyd yn oed ar y lefel sectorpwnc bresennol. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysg bellach roi sylw amlwg i'r adroddiadau Byrddau Cynghori 3 blynedd mwy strategol a seiliedig ar wybodaeth wrth gytuno ar eu cynlluniau cyflawni terfynol, gan eu grymuso a'u cymell i ymateb i'r materion a nodwyd yn yr adroddiadau hynny.

Ymateb: Gwrthod

Byddai symud oddi wrth y trefniant lle mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gwneud argymhellion gweithredol i Lywodraeth Cymru yn gwanhau'r broses gynllunio a chyllido strategol newydd. Dylai'r Partneriaethau felly barhau i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar niferoedd dysgwyr addysg bellach, gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddylanwadu ar yr hyn a ddarperir.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 2:

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda chyrff cynrychioli'r diwydiant a Cymwysterau Cymru a chyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod y seilwaith sgiliau ehangach yn cael ei ailadeiladu ac yn seiliedig ar sefydliadau a strwythurau sy'n addas ar gyfer y lefel amserol o graffu a'r arbenigedd dwfn sy'n ofynnol. Nid yw Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol, Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn disodli craffu gofalus ac amserol ar lefel sector a chymeradwyo cymwysterau a chynnwys.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'n rheolaidd ei threfniadau ar gyfer darparu sgiliau, ac mae wedi sefydlu Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, ac o dan hwnnw, Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, i gymeradwyo fframweithiau prentisiaethau. Rydym hefyd yn gweithio gyda darparwyr a cholegau i foderneiddio'r ffordd y darperir sgiliau. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn tyfu yn eu pwysigrwydd fel rhan o'r seilwaith sgiliau yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Ken Skates AC

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth